**CYFARFOD Y CYNGOR** **18fed IONAWR 2017**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 21ain Rhagfyr 2016 | - | Rhifau Cofnod 89-98 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 21ain Rhagfyr 2016 | - | Rhifau Cofnod 40-42 |
| Cyngor Arbennig | - | 4ydd Ionawr 2017 | - | Rhifau Cofnod 99-101 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 4ydd Ionawr 2017 | - | Rhifau Cofnod 43 – 45 |

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 4ydd Ionawr 2017 | - | Rhifau Cofnod 85 - 96 |

**3. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

**4. CYFLWYNIAD: MR. R. WALSH – 4 THE COMMUNITY**

Derbyn cyflwyniad gan Mr Walsh mewn perthynas â'r mudiad uchod.

**5. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – POLISI DRAFFT MASNACHU AR Y STRYD**

Derbyn ac ymateb i'r papur ymgynghorol uchod (copi'n amgaeëdig).

**6. STRATEGAETH FUDDSODDI STRATEGOL 2017/18**

Cymeradwyo cyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Strategaeth Fuddsoddi Strategol 2017/18 (copi'n amgaeëdig) fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol.

**7. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy’n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda’r Cadeirydd cyn i’r cyfarfod ddechrau.

**8. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o’r cyhoedd sy’n bresennol.

**9. GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**10. COFNODION**

Derbyn er gwybodaeth gofnodion cyfrinachol (copïau’n amgaeëdig) o’r cyfarfodydd canlynol:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Thiroedd | - | 28ain Tachwedd 2016 | - | Rhifau Cofnod 21-27 |
| Pwyllgor CSG | - | 9fed Ionawr 2017 | - | Rhifau Cofnod 18-24 |

**11. CYNGOR SIR DDINBYCH – DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR Y PROMENAD**

Ymhellach i Gyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 6ed Ionawr 2017, derbyn adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref mewn ymateb i gynnig diwygiedig gan Gyngor Sir Ddinbych i’r Aelodau ei ystyried (copi i ddilyn).

**12. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i’w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**13. TERFYNU’R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.